Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

# Adroddiad Arolygu Gofal Plant ar gyfer

**Bethan Finlayson**

**Caerdydd**



## Dyddiad Cyhoeddi

**13 Mawrth 2019**

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2019.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

## Disgrifiad o'r gwasanaeth

Mae Bethan Finlayson wedi'i chofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) i ofalu am hyd at ddeg o blant o dan 12 oed. Mae'n rhedeg y gwasanaeth o'i chartref yn Nhreganna, Caerdydd y mae'n ei rannu gyda'i gŵr a'u dau fab oed ysgol. Mae'r gwasanaeth yn gweithredu rhwng 7.45 a 17.00 o ddydd Llun i ddydd Gwener drwy gydol y flwyddyn. Mae'r gofalwr plant yn defnyddio Cymraeg a Saesneg a chynhaliwyd yr arolygiad yn Gymraeg.

## Crynodeb o'n canfyddiadau

**1. Asesiad cyffredinol**

Mae'r plant wedi ymlacio ac yn gyfforddus yng nghartref y gwarchodwr plant. Maent yn derbyn gofal a sylw sy'n diwallu eu hanghenion unigol. Mae cydberthnasau agos yn nodwedd amlwg gan fod y plant yn mynychu'r gwasanaeth yn rheolaidd ac maent wedi setlo'n dda. Mae'r amgylchedd yn ddeniadol ac yn ddiogel ac wedi ei gynllunio o safbwynt plentyn. Mae systemau rheoli effeithiol ar waith, sy'n ateb gofynion y rheoliadau, ac mae'r gwarchodwr plant wedi ei chymell i wella'i gwasanaeth yn barhaus.

**2. Gwelliannau**

Mae'r gwarchodwr plant wedi mynd i'r afael â'r argymhellion a gafodd eu hamlinellu yn yr arolygiad blaenorol. Mae hyn yn cynnwys cadw cofnodion o amseroedd cyrraedd a gadael y plant a diweddaru asesiadau risg.

**3. Gofynion ac argymhellion**

Ni nodwyd unrhyw faterion diffyg cydymffurfio yn ystod yr arolygiad hwn.
Caiff yr argymhellion eu trafod yn yr adroddiad a cheir crynodeb ohonynt ar y diwedd.

# 1. Llesiant

## Crynodeb

Mae'r plant yn fodlon eu byd ac wedi ymgyfarwyddo â'r gwarchodwr plant. Maent yn derbyn gofal o safon sy'n darparu sylfaen gref iddynt ar gyfer eu dysgu a'u datblygiad. Ceir awyrgylch cartrefol a chyfforddus o fewn y cartref ac mae'r plant yn hapus i fynegi eu barn. Darperir gweithgareddau sy'n briodol ar gyfer oedran a cham datblygiad y plant.

## Ein canfyddiadau

### 1.1 I ba raddau y mae gan blant lais?

Mae'r plant yn cael cymorth i wneud dewisiadau a chaiff eu dewisiadau eu parchu. Roedd y tri phlentyn ifancaf a oedd yn derbyn gofal yn ystod y dydd yn mynd drwy camau cynnar dysgu sut i fynegi eu hanghenion yn effeithiol. Roedd y gofalwr plant yn gallu rhagweld yr hyn roedd ei angen gan ei bod yn eu hadnabod yn dda iawn. Roeddent yn symud o gwmpas yr ystafell yn rhwydd ac yn gwneud eu dewisiadau eu hunain. Roedd y plant yn hapus i chwarae gyda phensiliau lliw a phosau ac roeddent yn cyfathrebu'n ddidrafferth gyda'r gofalwr plant gan ddefnyddio'u dewis iaith. Roedd dau blentyn yn defnyddio'r Gymraeg ac un plentyn yn defnyddio Saesneg. Roedd y gofalwr plant yn gofalu ei bod yn newid rhwng y ddwy iaith yn ôl yr angen. Caiff y plant hŷn eu holi ynglŷn â gweithgareddau, mae'r gwarchodwr plant yn gwneud rhestr o leoliadau i ymweld â nhw yn ystod y gwyliau, a chaiff penderfyniadau pob plentyn eu hystyried.

Mae'r plant yn cael cyfleoedd i fynegi eu hunain ac yn gwybod bod yr hyn a ddywedant yn cael ei ddeall a'i werthfawrogi.

### 1.2 I ba raddau y mae plant yn teimlo'n ddiogel ac yn hapus, a'u bod yn cael eu gwerthfawrogi?

Mae'r plant yn derbyn gofal cyson a chefnogol gan y gwarchodwr plant. Gwelsom eu bod yn gyfarwydd â threfniant cartref y gwarchodwr plant a oedd wedi'i drefnu i ddiwallu anghenion y plant.  Roedd un plentyn wedi drysu gan fod y gwarchodwr plant fel arfer yn mynychu grŵp chwarae yn ystod bore ein hymweliad ac roedd angen cysur a sicrwydd gan y gwarchodwr plant ar y plentyn. Roedd y gwarchodwr plant yn ymatebol ac yn siarad yn dyner gyda'r plant. Clywsom iaith gadarnhaol yn cael ei defnyddio a oedd yn cynnwys 'well done, that is lovely'. Roedd y plant ifancach yn amlwg yn gwybod beth i'w ddisgwyl ac yn deall y drefn ddyddiol a oedd yn cynnwys cinio wedi'i ddilyn gan gwsg. Roedd hyn yn cyfrannu at eu teimlad o ddiogelwch ac ymdeimlad o berthyn a lles.

Caiff llesiant emosiynol y plant ei gyfoethogi gan y cydberthnasau agos, cefnogol gyda'r gwarchodwr plant.

### 1.3 Pa mor dda y mae plant yn rhyngweithio?

Mae'r plant yn rhyngweithio'n briodol ac yn ystyrlon o ddymuniadau a theimladau eraill. Mae'r tri phlentyn ifancaf, oed meithrin, yn dechrau deall sut y mae eu hymddygiad yn effeithio ar unigolion eraill. Roeddent yn hapus i rannu creonau ac yn chwarae ar y cyd wrth ddatrys posau. Roeddent yn dibynnu ar y gwarchodwr plant i hwyluso a rhoi rhai gweithgareddau ar waith ac roeddent yn amyneddgar ar yr adegau hyn. Mae'r plant hŷn yn hapus i chwarae gyda'r plant iau ar ôl ysgol ac mae'r plant iau yn edrych ymlaen at hyn ac yn ei werthfawrogi.

Mae'r plant yn cael budd o brofi rhyngweithiadau cymdeithasol cadarnhaol.

### 1.4 I ba raddau y mae plant yn mwynhau chwarae a dysgu?

Mae'r plant yn hapus i gymryd rhan mewn ystod dda o weithgareddau'n seiliedig ar chwarae sy'n rhoi boddhad ac ymdeimlad o gyflawniad iddynt. Maent yn cael cyfleoedd rheolaidd i fwynhau gweithgareddau thematig yn seiliedig ar y tymhorau a digwyddiadau diwylliannol amrywiol. Gwelsom dystiolaeth ffotograffig o'r plant yn gwisgo i fyny ar Ddydd Gŵyl Dewi ac yn gwneud cardiau a blodau at y Pasg. Roedd y gwarchodwr plant yn cefnogi'r plant iau i wneud cardiau ar gyfer dydd Santes Dwynwen yn ystod ein hymweliad ac roeddent yn awyddus i'w rhoi i'w rhieni. Mae'r plant yn canolbwyntio'n dda ac yn mynegi boddhad wrth gwblhau jig-so a gweithgareddau crefft. Maent yn mynychu grŵp chwarae neu'n ymweld â pharciau bron bob bore ac yn cwrdd â phlant sydd o dan ofal gwarchodwyr plant eraill sy'n ehangu eu profiad ac yn hybu datblygiad sgiliau cymdeithasol a chyfathrebu.

Mae'r plant yn cael cyfleoedd da i ddatblygu sgiliau newydd a gwybodaeth o ganlyniad i'r profiadau a ddarperir.

### 1.5 Pa mor dda y mae plant yn datblygu, yn dysgu ac yn dod yn annibynnol?

Mae'r plant yn cael cymorth er mwyn dilyn eu diddordebau a datblygu sgiliau annibyniaeth. Mae'r plant hŷn sy'n mynychu'r gwasanaeth cyn ac ar ôl ysgol yn deall yr angen i gadw eu heiddo lle y gellir cael mynediad hawdd atynt yn ôl y gofyn ac i ymbaratoi ar gyfer yr ysgol. Gall y rhan fwyaf o blant baratoi eu hunain i adael cartref y gwarchodwr plant i fynd i'r ysgol mewn da bryd. Mae'r plant sy'n dewis cerdded i'r ysgol gyda'u ffrindiau yn cael caniatâd i wneud hynny gyda chydsyniad ysgrifenedig eu rhieni. Mae'r plant yn teimlo'n gyfforddus yn gofyn i'r gwarchodwr plant am gymorth yn ôl yr angen ac maent yn datblygu ystod dda o sgiliau hunangymorth defnyddiol. Mae ganddynt gydberthnasau cadarn gyda'r gwarchodwr plant a phlant eraill sydd o dan ei gofal sy'n eu helpu i ddatblygu hunan hyder a sgiliau rhyngweithio cymdeithasol. Maent yn gwerthfawrogi'r cyfle i ymgysylltu â gweithgareddau corfforol ar ôl ysgol ac yn ystod gwyliau'r ysgol ac mae hyn yn cael ei hyrwyddo'n eang ar gyfer yr holl blant gan y gwarchodwr plant.

Mae'r plant yn mwynhau cyfleoedd chwarae a dysgu da sy'n fuddiol i'w datblygiad cyffredinol.

## 2. Gofal a Datblygiad

### Crynodeb

Mae'r gwarchodwr plant yn ymarferwr gofal plant profiadol a hyderus ac wedi datblygu ystod dda o systemau effeithiol er mwyn sicrhau bod gofal a diogelwch plant yn cael ei ystyried a bod eu hanghenion yn cael eu diwallu. Mae hi wedi gosod y polisïau a'r gweithdrefnau gofynnol ar waith er mwyn hybu canlyniadau cadarnhaol i'r plant.

### Ein canfyddiadau

### 2.1 Pa mor dda y mae ymarferwyr yn cadw plant yn ddiogel ac yn iach?

Mae gan y gwarchodwr plant ddealltwriaeth dda o'i chyfrifoldeb i ddiogelu plant ac i hybu eu lles. Mae polisi diogelu ar waith nad yw'n cyfeirio at y ddyletswydd Atal. Mae hon yn strategaeth gan y llywodraeth sy'n amlinellu cyfrifoldeb yr holl ddarparwyr gwasanaeth i amddiffyn plant rhag peryglon radicaleiddio. Yn ystod ein trafodaethau dywedodd y gwarchodwr plant wrthym fod ganddi hyder i adnabod unrhyw broblemau yn ymwneud â diogelu ac yn ymwybodol o'i dyletswydd i gyfeirio unrhyw bryderon yn ymwneud â llesiant plentyn i'r awdurdod priodol. Caiff damweiniau eu cofnodi'n dda ac yn briodol ar gyfer oedran a cham datblygiad y plant. Hefyd, caiff cofnod ei gadw o'r damweiniau sydd eisoes wedi digwydd i blant cyn iddynt fynychu'r gwasanaeth.

Mae'r gwarchodwr plant wedi cofrestru ei busnes gydag adran Iechyd yr Amgylchedd ac wedi cwblhau cwrs hyfforddi hylendid bwyd yn ddiweddar. Mae ganddi systemau trylwyr ar waith er mwyn atal a rheoli heintiau ac yn gosod ffiniau clir ynghylch pryd y gall plant ailddechrau mynychu wedi salwch.

Mae'r gwarchodwr plant yn cadw'r plant yn ddiogel ac yn iach drwy gynnal systemau effeithiol sy'n cael eu hadolygu'n gyson.

### 2.2 Pa mor dda y mae ymarferwyr yn rheoli'r rhyngweithio?

Mae polisi rheoli ymddygiad ar waith a dywedodd y gwarchodwr plant wrthym ei bod yn defnyddio strategaethau rheoli ymddygiad cadarnhaol i hybu lles y plant. Mae'n ystyried oedran a cham datblygiad y plant ac yn deall bod y ffactorau hyn yn effeithio ar ymddygiad y plant. Clywsom y gwarchodwr plant yn canmol y plant am ymddygiad da a gwelsom eu bod yn defnyddio technegau tynnu sylw i ailffocysu'r plant yn ôl yr angen. Mae'n gweithio gyda'r rhieni i benderfynu ar strategaethau penodol os oes angen. Mae'r gwarchodwr plant yn fodel rôl gadarnhaol ac yn cynnal amgylchedd tawel o fewn ei chartref. Mae'r plant yn deall bod rheolau a disgwyliadau bod angen iddynt ddangos parch tuag at ei gilydd,

Mae'r gwarchodwr plant yn hyrwyddo rhyngweithio cadarnhaol ac yn darparu ffiniau clir mewn perthynas ag ymddygiad.

### 2.3 Pa mor dda y mae ymarferwyr yn hybu chwarae, dysgu a datblygiad plant, ac yn diwallu eu hanghenion unigol?

Mae gan y gwarchodwr plant systemau effeithiol ar waith er mwyn hyrwyddo dysgu a datblygiad y plant. Mae ganddi ddealltwriaeth dda o anghenion penodol y plant a'u cefndiroedd ac yn cadw mewn cysylltiad agos â'r rhieni er mwyn sicrhau bod yr holl wybodaeth sy'n ymwneud â lles plentyn yn cael ei rannu. Mae'n annog y plant i fynegi eu natur unigryw ac mae'n rhagweithiol wrth drefnu sesiynau cyn bod y plant yn cyrraedd er mwyn sicrhau defnydd pwrpasol o amser. Caiff gweithgareddau dyddiol a cherrig milltir a gaiff eu cyrraedd eu cofnodi mewn dyddiaduron datblygiad ar gyfer plant meithrin a chânt eu rhannu gyda'r rhieni. Mae gan bob plentyn lyfr sy'n cynnwys yr holl baentiadau a gwaith llaw sy'n cael eu cwblhau yn y gwasanaeth. Mae'r rhain yn cael eu gwerthfawrogi'n fawr gan y plant a'r rhieni ac yn gofnod da o ddatblygiad y plant a'u cyflawniadau dysgu.

Mae'r gwarchodwr plant yn darparu gweithgareddau priodol i ddiwallu dewisiadau unigol ac anghenion dysgu'r plant.

## 3. Yr Amgylchedd

### Crynodeb

Mae cartref y gwarchodwr plant yn ddiogel, yn ddeniadol ac mewn cyflwr da. Mae'r plant yn defnyddio cyfleusterau'r ystafell fyw/fwyta, y gegin a'r ystafell ymolchi lawr llawr. Mae'r babis yn defnyddio un ystafell wely lan lofft at ddibenion cysgu yn unig. Caiff sylw da ei roi i ddiogelwch. Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod y plant yn cael eu goruchwylio'n dda ar bob adeg. Nid yw ardal yr ardd yn cael ei defnyddio ar hyn o bryd at ddibenion gwarchod plant.

### Ein canfyddiadau

### 3.1 Pa mor dda y mae arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel?

Mae'r amgylchedd yn lân, mewn cyflwr da ac yn ddiogel. Caiff gwiriadau diogelwch rheolaidd ac asesiadau risg eu cynnal ar holl ardaloedd y safle. Mae'r gwarchodwr plant yn defnyddio rhestr wirio bob bore er mwyn sicrhau y caiff unrhyw beryglon i ddiogelwch eu lleihau. Caiff yr allanfeydd eu cloi ar bob adeg a chaiff cofnod ei gadw o unrhyw ymwelwyr pan fydd y plant sy'n cael gofal yn bresennol. Mae'r plant yn gwisgo bandiau garddwrn pan fyddant ar deithiau sy'n cynnwys yr holl wybodaeth berthnasol i'w cadw'n ddiogel. Mae'r gwarchodwr plant yn gwisgo band garddwrn tebyg gyda manylion cyswllt i'w defnyddio mewn argyfwng. Gwelsom dystiolaeth o wasanaethu'r boeler newydd yn rheolaidd a bod yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus ar waith. Mae cofnodion ymarferion tân misol yn gofyn am wybodaeth ychwanegol megis enwau'r plant sy'n bresennol, ac unrhyw beth a ddysgwyd o'r broses.

Mae'r gwarchodwr plant yn darparu amgylchedd diogel i'r plant.

### 3.2 Pa mor dda y mae arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn addas?

Mae'r safle yn lân, yn groesawgar a deniadol. Mae'r amgylchedd wedi'i drefnu er mwyn gwneud y gorau o'r gofod sydd ar gael ac mae'r plant yn gallu cyrraedd yr holl adnoddau sydd wedi'u storio'n briodol. Maent yn symud o amgylch yn hyderus ac yn rhydd. Mae yna dŷ bach lawr llawr sy'n cael ei gynnal yn dda ac yn hygyrch gyda sylw'n cael ei roi i faterion hylendid. Mae cadeiriau uchel ar gael i blant i'w defnyddio a bwrdd bach maint plentyn ar gyfer gweithgareddau pen bwrdd. Nid yw'r plant yn defnyddio'r ardd ar hyn o bryd ac mae'r gofalwr plant wrthi'n diweddaru ei datganiad o ddiben i adlewyrchu hyn. Mae'r plant yn derbyn goruchwyliaeth dda ar bob adeg a chaiff cymarebau eu cynnal. Mae'r gwarchodwr plant yn cadw cofnod o amseroedd cyrraedd a gadael pob plentyn.

Mae'r gwarchodwr plant yn cynnal amgylchedd sy'n gyfforddus ac yn gartrefol ac sy'n hyrwyddo annibyniaeth y plant.

## 3.3 Pa mor dda y mae arweinwyr yn sicrhau ansawdd yr adnoddau a’r cyfarpar?

Mae'r holl adnoddau ac offer o ansawdd da ac yn darparu chwarae a chyfleoedd dysgu sy'n addas o ran datblygiad y plant. Mae amrywiaeth dda o deganau ac adnoddau i gynnal diddordeb pob plentyn o ystod o oedrannau. Mae'r plant hŷn sy'n mynychu'r gwasanaeth ar ôl ysgol yn awyddus i chwarae y tu allan yn y parc ar y ffordd gartref o'r ysgol ac mae hyn yn cael ei drefnu'n briodol. Mae gan y plant ddewis da o gemau a deunyddiau crefft ac yn amrywio'r rhain gyda'r PlayStation a'r teledu pan fyddant yn awyddus i ymlacio. Yn ystod gwyliau'r ysgol, roedd tripiau yn cynnwys ymweld â'r Eisteddfod yng Nghaerdydd ac atyniadau lleol i ymwelwyr. Caiff y plant gyfleoedd da i ddysgu am reoli adnoddau'n gynaliadwy drwy ddefnyddio deunyddiau wedi'u hailgylchu a deunyddiau naturiol i wneud ceirw Nadolig a chennin pedr cardfwrdd ar gyfer Dydd Gŵyl Dewi.

Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod yr holl adnoddau yn briodol ar gyfer anghenion y plant a'u bod yn gwella eu profiad a'u datblygiad.

# 4. Arwain a Rheoli

## Crynodeb

Mae'r gwarchodwr plant yn rheoli ei gwasanaeth yn effeithlon gan roi ystyriaeth briodol i'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant Rheoleiddiedig ac i'r Rheoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru). Mae'n llawn cymhelliant ac mae ganddi brofiad helaeth o weithio mewn gwasanaethau blynyddoedd cynnar. Mae'r gwarchodwr plant yn agored i ddatblygiadau newydd ac yn arddangos hyder a sgil wrth hyrwyddo canlyniadau cadarnhaol i'r plant a'u teuluoedd.

## Ein canfyddiadau

### 4.1 Pa mor effeithiol yw'r arweinyddiaeth?

Mae’r gwarchodwr plant yn trefnu ei gwasanaeth yn effeithiol. Mae datganiad o ddiben mewn lle sy'n cynnig darlun cywir o'r gwasanaeth a ddarperir. Dywedodd y gwarchodwr plant wrthym ei bod yn edrych ar wefan AGC yn rheolaidd er mwyn sicrhau ei bod yn ymwybodol o unrhyw ddatblygiadau newydd. Yn ystod ein trafodaethau, roedd hi'n amlwg bod y gwarchodwr plant yn deall ei chyfrifoldeb i roi gwybod i AGC am unrhyw newidiadau neu ddatblygiadau i'r gwasanaeth. Mae hi'n gysylltiedig â sefydliad ymbarél gwarchod plant cenedlaethol sy'n darparu gwybodaeth a chymorth yn ôl yr angen. Gwelsom fod yr hyfforddiant gofynnol ar waith a bod dysgu ychwanegol yn ymwneud â maeth plant wedi cael ei gyflawni. Mae'r holl bolisïau a gweithdrefnau gofynnol ar waith a nodwyd gennym bod y rhain yn cael eu hadolygu'n gyson. Mae angen i'r polisïau hyn hefyd gynnwys y dyddiad yr ysgrifennwyd ac adolygwyd y polisi er eglurder. Mae'r gwarchodwr plant wedi'i chofrestru gyda Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ac yn deall yr angen i gynnal data personol yn ddiogel a chyfrinachol.

Mae trefniadaeth effeithiol yn sicrhau bod yr holl systemau'n gweithio er mwyn gwneud yn siŵr bod y plant yn derbyn gwasanaeth o ansawdd da.

### 4.2 Pa mor effeithiol yw'r gwaith o hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwella?

Mae systemau addas ar waith i werthuso'r gwasanaeth a chynllunio ar gyfer gwella. Roedd holiaduron a gafodd eu hanfon at rieni yn darparu gwybodaeth ynglŷn â ph'un a oedd y gwasanaeth yn diwallu anghenion y plant ac yn rhoi cyfle i ddarparu adborth ynglŷn ag ansawdd y gofal a ddarperir ac yn rhoi sylwadau cadarnhaol am y gwasanaeth. Mae yna holiadur i blant sy'n hygyrch iddynt ac yn defnyddio lluniau ac wynebau hapus. Mae'r adroddiad ar ansawdd y gofal yn gofyn bod barn y plant a'r rhieni yn cael ei gynnwys i ddarparu asesiad defnyddiwr gwasanaeth o'r gwasanaeth. Mae'r gwarchodwr plant yn bwriadu anfon yr adroddiad i AGC ar ôl ei gwblhau. Mae polisi cwynion ar waith sydd angen cael ei ddiweddaru er mwyn adlewyrchu rôl AGC yn gywir. Ni chafwyd unrhyw gwynion.

Mae systemau effeithiol ar waith i hyrwyddo gwelliannau i'r gwasanaeth.

### 4.3 Pa mor effeithiol y mae ymarferwyr, staff ac adnoddau eraill yn cael eu rheoli?

Mae'r gwarchodwr plant yn cadw cofnodion manwl o'i thystysgrifau ar gyfer ei chymwysterau, ei hyfforddiant a'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar ei chyfer hi ei hunan a'i theulu. Dywedodd hi wrthym ei bod wedi trefnu bod gwarchodwr plant cofrestredig sy'n byw yn lleol yn gofalu am y plant o dan eu gofal mewn achos o argyfwng neu sefyllfa na ellir ei rhagweld. Nid yw'r gwarchodwr plant yn cyflogi cymhorthydd. Mae'n trefnu ar gyfer pob sesiwn er mwyn sicrhau bod anghenion penodol y plant yn cael eu hystyried a bod yr holl adnoddau yn cyfateb i oedran a cham datblygiad y plant o dan ei gofal.

Mae'r gwarchodwr plant yn bodloni ei chyfrifoldebau cyfreithiol o ran cadw cofnodion sy'n dangos ei haddasrwydd i ofalu am blant.

### 4.4 Pa mor effeithiol yw partneriaethau?

Mae'r partneriaethau â'r rhieni yn gadarnhaol. Mae'r rhieni yn darparu gwybodaeth helaeth ynglŷn ag anghenion eu plant wrth eu cofrestru ac yn darparu diweddariadau yn ôl yr angen. Mae'r holl benderfyniadau yn ymwneud â llesiant y plentyn yn cael eu gwneud drwy drafod gyda'r rhieni. Mae'r gwarchodwr plant yn dilyn cyfarwyddiadau'r rhieni mewn perthynas â threfniadau gofal sy'n cynnwys hyfforddiant cysgu a defnyddio'r poti ac yn rhoi dyddiadur dyddiol iddynt ar gyfer plant cyn oed ysgol. Gall y rhieni ddefnyddio sesiynau setlo i mewn er mwyn rhoi gwybodaeth i'r gwarchodwr plant ynghylch trefn ddyddiol eu plant. Gwelsom ffolderi cofnod pedwar plentyn a oedd yn cynnwys gwybodaeth dda ynglŷn â'u dewisiadau ac anghenion gofal ac iechyd. Roedd datganiadau gan rieni yn amlinellu eu bodlonrwydd gydag ansawdd y gofal a ddarparwyd gan y gwarchodwr plant ac yn cynnwys, *'I am thoroughly satisfied with the high standard of care provided to my child*' and '*happy, nurturing and positive environment'*.

Mae'r gwarchodwr plant yn cynnal cydberthnasau cadarnhaol, proffesiynol gyda rhieni er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth mor fuddiol â phosibl i'r plant.

## 5. Gwelliannau sydd eu hangen ac a argymhellir yn dilyn yr arolygiad hwn

### 5.1 Meysydd o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd mewn arolygiadau blaenorol

Dim

### 5.2 Argymhellion ar gyfer gwella:

- Gosod gwybodaeth am y strategaeth Atal i mewn i'r polisi diogelu a chynnal hyfforddiant Atal:
- cwblhau cofnodion ymarferion tân manwl ar gyfer pob ymarfer;
- diweddaru'r datganiad o ddiben er mwyn cynnwys manylion ynghylch y defnydd o'r ardd a'i anfon at AGC;
- sicrhau bod yr holl bolisïau yn cael eu diweddaru'n gyson ac yn cynnwys dyddiadau'r gweithgaredd hwn i hyrwyddo tryloywder;
- cynnwys barn plant a rhieni yn yr adolygiad o ansawdd y gofal a'i anfon at AGC ar ôl ei gwblhau ac
- egluro rôl AGC mewn perthynas â rheoli cwynion o fewn y weithdrefn gwynion.

## 6. Sut y gwnaethom gynnal yr arolygiad hwn

Ymwelodd un arolygydd â'r gwasanaeth, yn ddirybudd, am tua phedair awr:

- gwnaethom ymgysylltu â'r wyth plentyn a oedd yn bresennol;
- gwnaethom edrych ar y wybodaeth a ddelir gan AGC;
- gwnaethom edrych ar amrywiaeth eang o gofnodion. Roedd y rhain yn cynnwys y datganiad o ddiben, asesiadau risg, copïau o bolisïau a oedd yn cynnwys diogelu, cofnodion diogelwch a chofnodion monitro. Gwnaethom hefyd edrych ar gofnodion y plant a
- gwnaethom gynnal gwiriad gweledol o'r safle a ddefnyddir gan y plant.

Ceir gwybodaeth bellach am yr hyn rydym yn ei wneud ar ein gwefan:
www.arolygiaethgofal.cymru

## 7. Ynglŷn â'r gwasanaeth

| | |
|---|---|
| **Y math o ofal a ddarperir** | **Gwarchodwraig** |
| **Person Cofrestredig** | **Bethan Finlayson** |
| **Uchafswm y lleoedd a gofrestrwyd** | **10** |
| **Ystod oedran y plant** | **Chwe mis i 12 oed** |
| **Oriau agor** | **7.45am-17.00pm o ddydd Llun i ddydd Gwener gan gynnwys gwyliau'r ysgol** |
| **Iaith weithredol y gwasanaeth** | **Cymraeg a Saesneg** |
| **Dyddiad arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru** | **22 Gorffennaf 2015** |
| **Dyddiad yr ymweliad arolygu hwn** | **24 Ionawr 2019** |
| **A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg?** | **Nac ydy** |
| **A yw'r gwasanaeth yn darparu addysg blynyddoedd cynnar ar gyfer plant tair a phedair oed?** | **Nac ydy** |
| **A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r cynnig rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg?** | **Mae'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg. Mae'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio.** |
| **Gwybodaeth Ychwanegol:**<br>Dim | |